Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Cyngor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Do	Naddo*		
1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: • gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a • pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.	☑	☐	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	☑	☐	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	☑	☐	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	☑	☐	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	☑	☐	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	☑	☐	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Cyngor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	☑	☐	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.	☑	☐	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/ gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

	Do	Naddo	Amh.		
9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi: • cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol.	☐	☐	☑	Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol.	3, 6

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.